Deddf Cwmnïau 2006

Tŷ'r Cwmnïau

cyfyngu datgeliad eich cyfeiriad

GP7 CYM – Mai 2012

BIS Yr Adran Busnes Arloesi a Sgiliau
GWASANAETH GAN BIS

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn fformatiau gwahanol, gan gynnwys Braille, print bras a thâp sain. I gael rhagor o fanylion gweler ein gwefan www.companieshouse.gov.ukneu anfonwch neges e-bost at ein hadran ymholiadau neu ffoniwch ein canolfan gyswllt ar 0303 1234 500

A yw'r canllaw hwn ar eich cyfer chi?

Bydd y canllaw hwn yn berthnasol i chi:

- os ydych yn unigolyn sydd, neu sy'n bwriadu bod, yn swyddog cwmni, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu gwmni tramor; ac

- os ydych chi (neu berson sy'n byw gyda chi) mewn perygl difrifol o drais neu fygythiadau o ganlyniad i weithgareddau cwmni, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu gwmni tramor yr ydych yn swyddog iddyn nhw, neu'n bwriadu bod yn swyddog iddyn nhw; neu

- os ydych yn berson a gofrestrodd arwystl a'ch bod chi neu'ch cyflogeion (neu berson sy'n byw gyda chi neu'ch cyflogeion) mewn perygl difrifol o drais neu fygythiadau o ganlyniad i weithgareddau cwmni neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig y gwnaethoch gofrestru'r arwystl ar eu cyfer; neu

- os ydych yn gweithredu fel cynghorydd i gwmni, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu gwmni tramor; ac

- os yw swyddogion (neu berson sy'n byw gyda nhw) i'r cwmni hwnnw, y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig honno neu'r cwmni tramor hwnnw mewn perygl difrifol o drais neu fygythiadau o ganlyniad i'w gweithgareddau.

Cynnwys

Cyflwyniad

Pennod 1. Y sail dros wneud y cais

Pennod 2. Cais gan unigolyn am gyfyngu ar ddatgelu ei gyfeiriad preswyl

Pennod 3. Cais gan gwmni, PAC neu gwmni tramor am gyfyngu ar ddatgelu cyfeiriadau eu swyddogion

Pennod 4. Cais gan danysgrifwyr cwmni arfaethedig neu aelod arfaethedig o PAC arfaethedig

Pennod 5. Cais gan unigolyn am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd

Pennod 6. Cais gan gwmni am drefnu nad yw cyfeiriadau ei aelodau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd

Pennod 7. Cais gan berson sy'n cofrestru arwystl am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd

Pennod 8. Penderfyniad y cofrestrydd

Pennod 9 Ansawdd dogfennau

Pennod 10 Gwybodaeth bellach

Mae'r canllaw hwn yn ateb llawer o gwestiynau mynych ac yn cynnig gwybodaeth ar ffeilio'r mathau mwyaf cyffredin o wybodaeth yn y maes hwn. Nid ydym wedi drafftio'r canllaw gyda thrafodion anarferol na chymhleth mewn golwg. Mae'n bosibl y bydd angen gofyn an gyngor proffesiynol arbenigol o dan yr amgylchiadau hynny.

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn gymwys i swyddogion cwmnïau, partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig (PACau) a chwmnïau tramor sydd wedi'u cofrestru yn y Deyrnas Unedig (DU), sef Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Fe welwch y ddeddfwriaeth berthnasol yn y canlynol:

- Adrannau 243 a 1088 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
- Rheoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009 OS 2009/214;
- Rheoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2009/1804 sy'n cymhwyso rhannau o Ddeddf Cwmnïau 2006 at PAC; a
- Rheoliadau Cwmnïau Tramor 2009 OS 2009/1801.

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, a deddfwriaeth berthynol arall, rhaid rhoi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau ac am gyfeiriad preswyl arferol pob cyfarwyddwr, pob aelod o PAC a phob cynrychiolydd parhaol. Bydd y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau i'w weld ar y cofnod cyhoeddus. Bydd gwybodaeth am y cyfeiriad preswyl (hyd yn oed os yw yr un fath â'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau) yn wybodaeth warchodedig o 1 Hydref 2009 ymlaen. Dim ond i asiantaethau cyfeirio credyd ac awdurdodau cyhoeddus penodedig y caiff gwybodaeth warchodedig ei datgelu.

Os ydych mewn perygl difrifol o drais neu fygythiadau oherwydd gweithgareddau:

(i) cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr iddo;

(ii) cwmni tramor yr ydych yn gyfarwyddwr neu'n gynrychiolydd parhaol iddo; neu

(iii) PAC yr ydych yn aelod ohoni;

yna cewch wneud cais o dan adran 243 am i'ch gwybodaeth warchodedig beidio â chael ei datgelu yn y dyfodol i asiantaethau cyfeirio credyd.

Bydd cyfeiriadau sydd eisoes yn ymddangos yn y cofnod cyhoeddus yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Os ydych chi mewn perygl difrifol o drais neu fygythiadau oherwydd gweithgareddau cwmni neu PAC yr ydych yn swyddog iddyn nhw, yna cewch wneud cais o dan adran 1088 am drefnu nad yw cyfeiriad sydd ar y cofnod cyhoeddus ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd.

Os bydd gennych chi amheuon ynglŷn â'ch cyfrifoldebau ar ôl darllen y canllaw hwn, dylech ystyried gofyn am gyngor proffesiynol gan gyfreithiwr.

Pennod 1
Y sail dros wneud y cais

Beth fyddai'r sail dros wneud cais?

Gall cwmnïau, PACau a chwmnïau tramor penodol osod eu swyddogion (neu berson sy'n byw gyda nhw) mewn perygl oherwydd eu gweithgareddau. Gallai hyn ddigwydd am eu bod yn ymwneud â sector penodol o fasnach neu ddiwydiant a allai dynnu sylw actifyddion neu eithafwyr.

Mae enghreifftiau o adegau pan allai cais fod yn briodol yn cynnwys:

- os ydych yn swyddog i gwmni, PAC neu gwmni tramor y mae eu busnes wedi'i drwyddedu o dan Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986;

- os ydych yn swyddog i gwmni, PAC neu gwmni tramor y mae'n hawdd dod o hyd iddyn nhw fel cyflenwr, cwsmer neu bartner i gwmni, PAC neu gwmni tramor yn y categori uchod;

- os oes cwmni neu PAC yr ydych yn swyddog iddyn nhw wedi'u targedu gan actifyddion hawliau anifeiliaid neu actifyddion eraill.

Does dim rhestr gynhwysfawr a bydd pam y gallech wneud cais am gyfyngu ar ddatgelu'r wybodaeth warchodedig neu am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd yn dibynnu ar eich amgylchiadau chi'ch hun.

Bydd angen hefyd ichi ddarparu tystiolaeth i ategu'r sail dros eich cais ac ymdrinnir â hyn ym Mhennod 2 cwestiwn 4.

Pennod 2
Cais gan unigolyn am gyfyngu ar ddatgelu ei gyfeiriad preswyl

1. Pam byddwn i am i'r cofrestrydd gyfyngu ar ddatgelu'r wybodaeth warchodedig ynghylch fy nghyfeiriad preswyl?

Fe allech chi fod o'r farn eich bod chi (neu fod person sy'n byw gyda chi) mewn perygl difrifol o ddioddef trais neu fygythiadau oherwydd gweithgareddau o leiaf un o'r canlynol:

- y cwmnïau yr ydych yn gyfarwyddwr iddyn nhw neu'n bwriadu bod yn gyfarwyddwr iddyn nhw;

- y cwmnïau y buoch chi'n gyfarwyddwr iddyn nhw;

- y cwmnïau tramor rydych chi neu y buoch chi yn gyfarwyddwr, yn ysgrifennydd neu'n gynrychiolydd parhaol iddyn nhw; neu

- y PACau rydych chi neu y buoch chi yn aelod ohonyn nhw.

Fe allech chi fod o'r farn eich bod chi (neu fod person sy'n byw gyda chi) mewn perygl difrifol o ddioddef trais neu fygythiadau am eich bod wedi cael eich cyflogi gan sefydliad perthnasol, sef Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth, y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol, y Gwasanaeth Diogelwch neu un o'r heddluoedd.

2. Pwy gaiff wneud cais?

Mae unigolyn sy'n gyfarwyddwr neu sy'n bwriadu bod yn gyfarwyddwr cwmni yn cael gwneud cais o dan adran 243 o'r Ddeddf a rheoliad 5 o Reoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009. Y ffurflen yw "Cais o dan adran 243 gan unigolyn" - SR04.

Mae unigolyn sy'n aelod o PAC yn cael gwneud cais o dan adran 243, fel y mae wedi'i chymhwyso gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2009, a rheoliad 5 o Reoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009. Y ffurflen yw "Cais o dan adran 243 gan aelod unigol o Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC)" - LL SR03.

Caiff unigolyn sy'n gyfarwyddwr neu'n gynrychiolydd parhaol i gwmni tramor wneud cais am ddiogelwch uwch o dan Reoliadau Cwmnïau Tramor 2009. Y ffurflen yw "Cais am ddiogelwch uwch gan gyfarwyddwr neu gynrychiolydd parhaol cwmni tramor am atal datgelu gwybodaeth warchodedig i asiantaeth cyfeirio credyd" – OS SR01.

Mae pob un o'r ffurflenni hyn ar gael drwy wneud cais i'n canolfan gyswllt ar 0303 1234 500.

3. Pa wybodaeth y mae'r cais yn gofyn amdani?

Mae'r cais yn gofyn am y canlynol:

- eich enw, gan gynnwys unrhyw enwau blaenorol;
- eich cyfeiriad preswyl arferol;
- eich dyddiad geni;
- enw a rhif cofrestredig y canlynol:
    - os ydych yn gwneud cais fel cyfarwyddwr, y cwmnïau rydych chi wedi'ch penodi, neu'n bwriadu cael eich penodi, iddyn nhw;
    - os ydych yn gwneud cais fel aelod o PAC, y PACau rydych chi wedi'ch penodi, neu'n bwriadu cael eich penodi, iddyn nhw; neu
    - os ydych yn gwneud cais fel cyfarwyddwr neu gynrychiolydd parhaol cwmni tramor, y cwmnïau tramor rydych chi wedi'ch penodi, neu'n bwriadu cael eich penodi, iddyn nhw;
- datganiad o'r sail dros wneud eich cais (ymdrinnir â hyn ym Mhennod 1); ac

- enw a rhif cofrestredig y cwmni, y PAC neu'r cwmni tramor y gallai eu gweithgareddau eich gosod chi (neu berson sy'n byw gyda chi) mewn perygl difrifol o drais neu fygythiadau.

Bydd yn ofynnol hefyd ichi roi tystiolaeth i ategu'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yng nghwestiwn 4.

Cofiwch: mae'n dramgwydd rhoi datganiad ffug.

Os ydych yn cael eich penodi ar yr un pryd â gwneud y cais hwn, dylech amgáu'r ffurflen neu'r ffurflenni penodi priodol gyda'r cais er mwyn sicrhau bod eich gwybodaeth warchodedig yn aros yn gyfyngedig.

4. Pa dystiolaeth y mae'n rhaid imi ei darparu?

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth sy'n ategu'r datganiad o'r sail dros eich cais. Gallai'r enghreifftiau gynnwys:

- rhif digwyddiad heddlu os oes ymosodiadau blaenorol wedi bod;
- tystiolaeth ddogfennol o fygythiad neu ymosodiad; neu
- dystiolaeth o aflonyddu, trais, bygwth neu dargedu arall gan actifyddion hawliau anifeiliaid neu actifyddion eraill.

Bydd pa dystiolaeth y gallwch ei darparu yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Fe all fod ar ffurf dogfen ysgrifenedig neu ffotograffau os yw'r rheiny'n dangos y perygl yn glir.

Os ydych yn gwneud cais ar y sail eich bod yn cael eich cyflogi gan sefydliad perthnasol, sef Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth, y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol, y Gwasanaeth Diogelwch neu un o'r heddluoedd, yna dylech gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau hynny.

5. Oes yna ffi am wneud y cais?

Oes, mae yna ffi o £100 am wneud y cais. Dylai sieciau fod yn daladwy i 'Tŷ'r Cwmnïau'. Caiff eich ffurflen ei gwrthod os nad anfonwch y ffi gywir gyda hi.

6. Ble dylwn i anfon fy nghais?

Rhaid i'ch cais gael ei anfon at **Y Cofrestrydd Cwmnïau, Blwch Post 4082, Caerdydd CF14 3WE** ynghyd â'r ffi briodol a'r dystiolaeth ategol. Bydd hynny'n sicrhau y caiff ei brosesu gan y tîm priodol.

7. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi gael fy nghais?

Byddwn yn gwirio'r manylion a rowch ac yn adolygu'r sail dros wneud y cais. Fe allen ni ofyn ichi roi tystiolaeth ychwanegol os byddwn yn teimlo nad ydych wedi rhoi digon o wybodaeth. I'n helpu i wneud penderfyniad byddwn yn gofyn am asesiad gan awdurdod priodol o natur a graddau'r perygl ichi o drais neu fygythiadau.

Rydyn ni'n ymdrin â gwybodaeth ar benderfyniad y cofrestrydd a sut y cewch wybod amdano ym Mhennod 8.

Pennod 3
Cais gan gwmni, PAC neu gwmni tramor am gyfyngu ar ddatgelu cyfeiriadau eu swyddogion

1. Pam byddwn i am i'r cofrestrydd gyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth warchodedig y swyddogion ynglŷn â'u cyfeiriadau?

O ganlyniad i weithgareddau'ch cwmni, eich PAC neu'ch cwmni tramor fe allech fod o'r farn bod y swyddogion (neu berson sy'n byw gyda nhw) mewn perygl difrifol o ddioddef trais neu fygythiadau.

2. Pwy gaiff wneud cais?

Caiff cwmni wneud cais o dan adran 243 a rheoliad 6 o Reoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009 ar ran unrhyw rai o'i gyfarwyddwyr sy'n unigolion. Y ffurflen yw "Cais o dan adran 243 gan gwmni" - SR05.

Caiff PAC wneud cais ar ran unrhyw rai o'i haelodau sy'n unigolion o dan adran 243, fel y mae wedi'i chymhwyso gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2009, a rheoliad 6 o Reoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009. Y ffurflen yw "Cais o dan adran 243 gan Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC)" - LL SR04.

Caiff cwmni tramor wneud cais am ddiogelwch uwch o dan Reoliadau Cwmnïau Tramor 2009 ar ran unrhyw rai o'i gyfarwyddwyr neu ei gynrychiolwyr parhaol sy'n unigolion. Y ffurflen yw "Cais am ddiogelwch uwch gan gwmni tramor i atal datgelu gwybodaeth warchodedig i asiantaeth cyfeirio credyd" - OS SR02.

Mae pob un o'r ffurflenni hyn ar gael drwy wneud cais i'n canolfan gyswllt ar 0303 1234 500.

3. Pa wybodaeth y mae'r cais yn gofyn amdani?

Mae'r cais yn gofyn am y canlynol:

- enw a rhif cofrestredig y ceisydd, sef y cwmni, y PAC neu'r cwmni tramor;
- enw ac unrhyw enw blaenorol y swyddogion y mae'r cais yn cael ei wneud ar eu rhan;
- cyfeiriad preswyl arferol pob swyddog;
- dyddiad geni pob swyddog;
- enw a rhif cofrestredig y canlynol:
    - yn achos cais gan gwmni – pob cwmni y mae pob cyfarwyddwr wedi'i benodi iddo;
    - yn achos cais gan PAC - pob PAC y mae pob aelod wedi'i benodi iddi; ac

- yn achos cais gan gwmni tramor – pob cwmni neu gwmni tramor sydd wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig y mae pob cyfarwyddwr neu gynrychiolydd parhaol wedi'i benodi iddo; a

- datganiad o'r sail dros wneud y cais: ymdrinnir â hyn ym Mhennod 1.

Bydd yn ofynnol hefyd ichi roi tystiolaeth i ategu'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yng nghwestiwn 4.

Cofiwch: mae'n dramgwydd rhoi datganiad ffug.

4. Pa dystiolaeth y mae'n rhaid imi ei darparu?

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth sy'n ategu'r datganiad o'r sail dros eich cais. Gallai'r enghreifftiau gynnwys:

- rhif digwyddiad heddlu os oes ymosodiad blaenorol wedi bod;

- tystiolaeth ddogfennol o fygythiad neu ymosodiad; neu

- dystiolaeth o aflonyddu, trais, bygwth neu dargedu arall gan actifyddion hawliau anifeiliaid neu actifyddion eraill.

Bydd pa dystiolaeth y gallwch ei darparu yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Fe all fod ar ffurf dogfen ysgrifenedig neu ffotograffau os yw'r rheiny'n dangos y perygl yn glir.

5. Oes yna ffi am wneud y cais?

Oes, mae yna ffi o £100 am wneud y cais. Dylai sieciau fod yn daladwy i 'Tŷ'r Cwmnïau'. Caiff eich ffurflen ei gwrthod os nad anfonwch y ffi gywir gyda hi.

6. Ble dylwn i anfon fy nghais?

Rhaid i'ch cais gael ei anfon at **Y Cofrestrydd Cwmnïau, Blwch Post 4082, Caerdydd CF14 3WE** ynghyd â'r ffi briodol a'r dystiolaeth ategol. Bydd hynny'n sicrhau y caiff ei brosesu gan y tîm priodol.

7. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi gael fy nghais?

Byddwn yn gwirio'r manylion a rowch ac yn adolygu'r sail dros wneud y cais. Fe allen ni ofyn ichi roi tystiolaeth ychwanegol os byddwn yn teimlo nad ydych wedi rhoi digon o wybodaeth. I'n helpu i wneud penderfyniad byddwn yn gofyn am asesiad gan awdurdod priodol o natur a graddau'r perygl ichi o drais neu fygythiadau.

Rydyn ni'n ymdrin â gwybodaeth ar benderfyniad y cofrestrydd a sut y cewch wybod amdano ym Mhennod 8.

Pennod 4
Cais gan danysgrifiwr cwmni arfaethedig neu aelod arfaethedig o PAC arfaethedig

1. Pam byddwn i am i'r cofrestrydd gyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth warchodedig y swyddogion arfaethedig ynglŷn â'u cyfeiriadau?

Fe allech fod o'r farn bod y swyddogion arfaethedig (neu berson sy'n byw gyda nhw) mewn perygl difrifol o ddioddef trais neu fygythiadau o ganlyniad i weithgareddau arfaethedig eich cwmni arfaethedig neu'ch PAC arfaethedig.

2. Pwy gaiff wneud cais?

Caiff tanysgrifiwr i'r memorandwm cymdeithasiad wneud cais o dan adran 243 a rheoliad 7 o Reoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009 ar ran unrhyw rai o gyfarwyddwyr arfaethedig cwmni arfaethedig sy'n unigolion. Y ffurflen yw "Cais o dan adran 243 gan danysgrifiwr i femorandwm cymdeithasiad" - SR06.

Caiff aelod arfaethedig o PAC arfaethedig wneud cais ar ran unrhyw rai o'i haelodau arfaethedig sy'n unigolion o dan adran 243, fel y mae wedi'i chymhwyso gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2009, a rheoliad 7 o Reoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009. Y ffurflen yw "Cais o dan adran 243 gan aelod arfaethedig o Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) arfaethedig" - LL SR05

Mae'r ddwy ffurflen ar gael drwy wneud cais i'n canolfan gyswllt ar 0303 1234 500.

3. Pa wybodaeth y mae'r cais yn gofyn amdani?

Mae'r cais yn gofyn am y canlynol:

- enw a chyfeiriad y ceisydd;
- enw'r cwmni arfaethedig neu'r PAC arfaethedig;
- enw ac unrhyw enw blaenorol pob un o'r swyddogion arfaethedig y mae'r cais yn cael ei wneud ar eu rhan;
- cyfeiriad preswyl arferol pob swyddog arfaethedig;
- dyddiad geni pob swyddog arfaethedig;
- enw a rhif cofrestredig y canlynol;
    - yn achos cais gan danysgrifiwr – pob cwmni y mae pob cyfarwyddwr arfaethedig wedi'i benodi iddo; neu
    - yn achos cais gan aelod arfaethedig - pob PAC y mae pob aelod wedi'i benodi iddi; a
- datganiad o'r sail dros wneud y cais: ymdrinnir â hyn ym Mhennod 1.

Bydd yn ofynnol hefyd ichi roi tystiolaeth i ategu'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yng nghwestiwn 4.

Cofiwch: mae'n dramgwydd rhoi datganiad ffug.

4. Pa dystiolaeth y mae'n rhaid imi ei darparu?

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth sy'n ategu'r datganiad o'r sail dros eich cais. Gallai'r enghreifftiau gynnwys:

- rhif digwyddiad heddlu os oes ymosodiad blaenorol wedi bod;
- tystiolaeth ddogfennol o fygythiad neu ymosodiad; neu
- dystiolaeth o aflonyddu, trais, bygwth neu dargedu arall gan actifyddion hawliau anifeiliaid neu actifyddion eraill.

Bydd pa dystiolaeth y gallwch ei darparu yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Fe all fod ar ffurf dogfen ysgrifenedig neu ffotograffau os yw'r rheiny'n dangos y perygl yn glir.

5. Oes yna ffi am wneud y cais?

Oes, mae yna ffi o £100 am wneud y cais. Dylai sieciau fod yn daladwy i 'Tŷ'r Cwmnïau'. Caiff eich ffurflen ei gwrthod os nad anfonwch y ffi gywir gyda hi.

6. Ble dylwn i anfon fy nghais?

Rhaid i'ch cais gael ei anfon at **Y Cofrestrydd Cwmnïau, Blwch Post 4082, Caerdydd CF14 3WE** ynghyd â'r ffi briodol a'r dystiolaeth ategol. Bydd hynny'n sicrhau y caiff ei brosesu gan y tîm priodol.

7. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi gael fy nghais?

Byddwn yn gwirio'r manylion a rowch ac yn adolygu'r sail dros wneud y cais. Fe allen ni ofyn ichi roi tystiolaeth ychwanegol os byddwn yn teimlo nad ydych wedi rhoi digon o wybodaeth. I'n helpu i wneud penderfyniad byddwn yn gofyn am asesiad gan awdurdod priodol o natur a graddau'r perygl ichi o drais neu fygythiadau.

Rydyn ni'n ymdrin â gwybodaeth ar benderfyniad y cofrestrydd a sut y cewch wybod amdano ym Mhennod 8.

Pennod 5

Cais gan unigolyn am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd

1. Pam byddwn i am i'r cofrestrydd drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd?

Fe allech fod o'r farn eich bod chi (neu berson sy'n byw gyda chi) mewn perygl

difrifol o ddioddef trais neu fygythiadau o ganlyniad i weithgareddau o leiaf un o'r canlynol:

- y cwmnïau yr ydych yn gyfarwyddwr neu'n bwriadu bod yn gyfarwyddwr iddyn nhw;

- y cwmnïau nad ydych yn gyfarwyddwr iddyn nhw ond y buoch yn gyfarwyddwr, yn ysgrifennydd neu'n gynrychiolydd parhaol iddyn nhw;

- y PACau yr ydych yn aelod, yr ydych yn bwriadu bod yn aelod neu y buoch yn aelod ohonyn nhw;

- y PACau nad ydych yn aelod ohonyn nhw ond y buoch yn aelod ohonyn nhw;

- os ydych yn cael eich cyflogi neu wedi cael eich cyflogi gan sefydliad perthnasol, sef Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth, y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol, y Gwasanaeth Diogelwch neu un o'r heddluoedd; neu

- os ydych yn "fuddiolwr adran 243". Rydyn ni'n diffinio "buddiolwr adran 243" ym Mhennod 8 cwestiwn 2.

2. Pwy gaiff wneud cais?

Gall cais gael ei wneud dan adran 1088 o'r Ddeddf a rheoliad 9 o Reoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009 gan unigolyn y cafodd ei gyfeiriad preswyl arferol ei osod ar y gofrestr mewn perthynas â chwmni ar neu ar ôl 1 Ionawr 2003. Y ffurflen yw "Cais gan unigolyn o dan adran 1088 am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd" - SR01.

Caiff unigolyn y cafodd ei gyfeiriad preswyl arferol ei osod ar y gofrestr mewn perthynas â PAC ar neu ar ôl 1 Ionawr 2003 wneud cais o dan adran 1088, fel y mae wedi'i chymhwyso gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2009, a rheoliad 9 o Reoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009. Y ffurflen yw "Cais gan aelod unigol o Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) o dan adran 1088 am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd" - LL SR01.

Mae'r ddwy ffurflen ar gael drwy wneud cais i'n canolfan gyswllt ar 0303 1234 500.

3. Ym mha ddogfennau y gellir trefnu nad yw'r cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd?

Yn achos cwmnïau a chwmnïau tramor, mae hyn yn golygu cyfeiriad preswyl arferol yr unigolyn a gafodd ei osod ar y gofrestr naill ai:

- o dan adran 10; 288; 363; 691; 692 o Ddeddf Cwmnïau 1985 neu o dan baragraff 2 o Atodlen 21A iddi;

- o dan Erthygl 21; 296; 371, 641 neu 642 o Orchymyn Cwmnïau Gogledd Iwerddon 1986;

- fel cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau o dan adran 12; 167 neu 855 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu

- o dan reoliadau a wnaed o dan adran 1046 (yn achos cwmnïau tramor).

Yn achos PAC mae hyn yn golygu cyfeiriad preswyl arferol yr aelod a gafodd ei osod ar y gofrestr o dan:

- adran 2 neu 9 o Ddeddf PAC 2000;

- adran 288 neu 363 o Ddeddf Cwmnïau 1985, fel y mae wedi'i chymhwyso at PAC;

- Erthygl 296 neu 371 o Orchymyn Cwmnïau Gogledd Iwerddon 1986, fel y mae wedi'i gymhwyso at PAC; neu

- o dan adran 855 o Ddeddf Cwmnïau 2006, fel y mae wedi'i chymhwyso at PAC.

4. Pa wybodaeth y mae'r cais yn gofyn amdani?

Mae'r cais yn gofyn am y canlynol:

- eich enw, gan gynnwys unrhyw enwau blaenorol;

- y cyfeiriad preswyl arferol y bwriedir trefnu nad yw ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd;

- y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau sydd i'w osod yn lle'r cyfeiriad preswyl arferol ar y gofrestr;

- cyfeiriad gohebu;

- enw a rhif cofrestredig y canlynol:

    - y cwmnïau yr ydych yn gyfarwyddwr, ysgrifennydd neu gynrychiolydd parhaol iddyn nhw neu yr ydych wedi'ch penodi'n gyfarwyddwr, ysgrifennydd neu gynrychiolydd parhaol iddyn nhw, ers 1 Ionawr 2003; neu

    - y PACau yr ydych yn aelod ohonyn nhw neu wedi bod yn aelod ohonyn nhw, ers 1 Ionawr 2003;

- manylion pob dogfen y mae'r cyfeiriad i'w weld ynddi ar y gofrestr a'r dyddiad y cafodd pob dogfen ei chofrestru;

- eich dyddiad geni ac:
    - enw'r cwmni ar gyfer pob cwmni yr ydych yn bwriadu mynd yn gyfarwyddwr iddo; neu

    - enw'r PAC ar gyfer pob PAC yr ydych yn bwriadu mynd yn aelod ohoni. Does dim angen yr wybodaeth hon am y PAC neu'r cwmni os byddwch yn amgáu cais o dan adran 243 am gyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth warchodedig sy'n ymwneud â'ch cyfeiriad; a

- datganiad o'r sail dros wneud eich cais: ymdrinnir â hyn ym Mhennod 1.

Bydd yn ofynnol hefyd ichi roi tystiolaeth i ategu'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yng nghwestiwn 5.

Cofiwch: mae'n dramgwydd rhoi datganiad ffug.

5. Pa dystiolaeth y mae'n rhaid imi ei darparu?

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth sy'n ategu'r datganiad o'r sail dros eich cais. Gallai'r enghreifftiau gynnwys:

- rhif digwyddiad heddlu os oes ymosodiad blaenorol wedi bod;
- tystiolaeth ddogfennol o fygythiad neu ymosodiad; neu
- dystiolaeth o aflonyddu, trais, bygwth neu dargedu arall gan actifyddion hawliau anifeiliaid neu actifyddion eraill.

Bydd pa dystiolaeth y gallwch ei darparu yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Fe all fod ar ffurf dogfen ysgrifenedig neu ffotograffau os yw'r rheiny'n dangos y perygl yn glir.

Os ydych yn gwneud cais am eich bod yn cael eich cyflogi gan sefydliad perthnasol, yna dylech gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau hynny.

Os ydych yn gwneud cais am eich bod yn "fuddiolwr adran 243" yna dylech gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau hynny.

6. Oes yna ffi am wneud y cais?

Oes, mae yna ffi o £55 am bob dogfen y bwriedir trefnu nad yw'r cyfeiriad i fod ar gael i'w archwilio ynddi. Dylai sieciau fod yn daladwy i 'Tŷ'r Cwmnïau'. Caiff eich ffurflen ei gwrthod os nad anfonwch y ffi gywir gyda hi.

7. Ble dylwn i anfon fy nghais?

Rhaid i'ch cais gael ei anfon at **Y Cofrestrydd Cwmnïau, Blwch Post 4082, Caerdydd CF14 3WE** ynghyd â'r ffi briodol a'r dystiolaeth ategol. Bydd hynny'n sicrhau y caiff ei brosesu gan y tîm priodol.

8. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi gael fy nghais?

Byddwn yn gwirio'r manylion a rowch ac yn adolygu'r sail dros wneud y cais. Fe allen ni ofyn ichi roi tystiolaeth ychwanegol os byddwn yn teimlo nad ydych wedi rhoi digon o wybodaeth. I'n helpu i wneud penderfyniad byddwn yn gofyn am asesiad gan awdurdod priodol o natur a graddau'r perygl ichi o drais neu fygythiadau.

Rydyn ni'n ymdrin â gwybodaeth ar benderfyniad y cofrestrydd a sut y cewch wybod amdano ym Mhennod 8.

Pennod 6
Cais gan gwmni am drefnu nad yw cyfeiriadau ei aelodau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd

1. Pam byddwn i am i'r cofrestrydd drefnu nad yw holl gyfeiriadau aelodau neu gyn aelodau'r cwmni ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd?

Fe allech fod o'r farn bod aelodau neu gyn aelodau neu danysgrifwyr i femorandwm cymdeithasiad (neu berson sy'n byw yn eu cyfeiriadau) mewn perygl difrifol o ddioddef trais neu fygythiadau o ganlyniad i weithgareddau'r cwmni.

2. Pwy gaiff wneud cais?

Gall cais gael ei wneud o dan adran 1088 o'r Ddeddf a rheoliad 10 o Reoliadau Cwmnïau (Datgelu Cyfeiriad) 2009 gan gwmni mewn perthynas â'r canlynol:

- yr holl aelodau, neu gyn aelodau, y cafodd eu cyfeiriadau eu cynnwys mewn ffurflen flynyddol neu ffurflen dyrannu cyfrannau a gyflwynwyd i'r cofrestrydd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2003; neu

- y tanysgrifwyr i'r memorandwm cymdeithasiad lle cafodd y memorandwm ei gyflwyno i'r cofrestrydd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2003.

Y ffurflen yw "Cais gan gwmni o dan adran 1088 am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd" – SR02.

Mae'r ffurflen ar gael drwy wneud cais i'n canolfan gyswllt ar 0303 1234 500.

3. Pa wybodaeth y mae'r cais yn gofyn amdani?

Mae'r cais yn gofyn am y canlynol:

- enw a rhif cofrestredig y cwmni;

- manylion pob dogfen a'r dyddiad y cafodd pob dogfen ei chofrestru; a

- datganiad o'r sail dros wneud eich cais: ymdrinnir â hyn ym Mhennod 1.

Bydd yn ofynnol hefyd ichi roi tystiolaeth i ategu'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yng nghwestiwn 4.

Cofiwch: mae'n dramgwydd rhoi datganiad ffug.

4. Pa dystiolaeth y mae'n rhaid imi ei darparu?

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth sy'n ategu'r datganiad o'r seiliau dros eich cais. Gallai'r enghreifftiau gynnwys:

- rhif digwyddiad heddlu os oes ymosodiad blaenorol wedi bod;

- tystiolaeth ddogfennol o fygythiad neu ymosodiad; neu

- dystiolaeth o aflonyddu, trais, bygwth neu dargedu arall gan actifyddion hawliau anifeiliaid neu actifyddion eraill.

Bydd pa dystiolaeth y gallwch ei darparu yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Fe all fod ar ffurf dogfen ysgrifenedig neu ffotograffau os yw'r rheiny'n dangos y perygl yn glir.

5. Oes yna ffi am wneud y cais?

Oes, mae yna ffi o £55 am bob dogfen y bwriedir trefnu nad yw'r cyfeiriad i fod ar gael i'w archwilio ynddi. Dylai sieciau fod yn daladwy i 'Tŷ'r Cwmnïau'. Caiff eich ffurflen ei gwrthod os nad anfonwch y ffi gywir gyda hi.

6. Ble dylwn i anfon fy nghais?

Rhaid i'ch cais gael ei anfon at **Y Cofrestrydd Cwmnïau, Blwch Post 4082, Caerdydd CF14 3WE** ynghyd â'r ffi briodol a'r dystiolaeth ategol. Bydd hynny'n sicrhau y caiff ei brosesu gan y tîm priodol.

7. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi gael fy nghais?

Byddwn yn gwirio'r manylion a rowch ac yn adolygu'r sail dros wneud y cais. Fe allen ni ofyn ichi roi tystiolaeth ychwanegol os byddwn yn teimlo nad ydych wedi rhoi digon o wybodaeth. I'n helpu i wneud penderfyniad byddwn yn gofyn am asesiad gan awdurdod priodol o natur a graddau'r perygl ichi o drais neu fygythiadau.

Rydyn ni'n ymdrin â gwybodaeth ar benderfyniad y cofrestrydd a sut y cewch wybod amdano ym Mhennod 8.

Pennod 7
Cais gan berson sy'n cofrestru arwystl am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd

1. Pam byddwn i am i'r cofrestrydd drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd?

Fe allech fod o'r farn eich bod chi, eich cyflogeion neu bersonau sy'n byw naill ai gyda chi neu gyda'ch cyflogeion mewn perygl difrifol o ddioddef trais neu fygythiadau o ganlyniad i weithgareddau'r cwmni neu'r PAC sydd neu a fu yn destun yr arwystl.

2. Pwy gaiff wneud cais?

Gall cais gael ei wneud gan berson a gofrestrodd arwystl ar neu ar ôl 1 Ionawr 2003 o dan:

- Ran 12 o Ddeddf Cwmnïau 1985;
- Rhan 13 o Orchymyn Cwmnïau Gogledd Iwerddon 1986;
- Rhan 25 o Ddeddf Cwmnïau 2006; neu
- reoliadau o dan adran 1052 (yn achos cwmnïau tramor).

Rhaid i'r person fod yn wahanol i'r cwmni a greodd yr arwystl neu a sicrhaodd yr eiddo sy'n destun yr arwystl.

Os cwmni yw testun yr arwystl, y ffurflen yw "Cais gan berson sy'n cofrestru arwystl o dan adran 1088 am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd" – SR03.

Os PAC yw testun yr arwystl, y ffurflen yw "Cais gan berson sy'n cofrestru arwystl ar ran Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) o dan adran 1088 am drefnu nad yw cyfeiriad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd" – LL SR02.

Mae'r ddwy ffurflen ar gael drwy wneud cais i'n canolfan gyswllt ar 0303 1234 500.

3. Pa wybodaeth y mae'r cais yn gofyn amdani?

Mae'r cais yn gofyn am y canlynol:

- enw'r ceisydd, ac os cwmni neu PAC yw'r ceisydd, eu rhif cofrestredig;
- y cyfeiriad y bwriedir trefnu nad yw ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd;
- cyfeiriad gohebu;
- enw a rhif cofrestredig y cwmni neu'r PAC sydd neu a fu yn destun yr arwystl;
- os y pridiannai yw'r ceisydd, y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno dogfennau sydd i'w osod yn lle'r cyfeiriad ar y gofrestr; a
- datganiad o'r sail dros wneud eich cais: ymdrinnir â hyn ym Mhennod 1.

Bydd yn ofynnol hefyd ichi roi tystiolaeth i ategu'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yng nghwestiwn 4.

Cofiwch: mae'n dramgwydd rhoi datganiad ffug.

4. Pa dystiolaeth y mae'n rhaid imi ei darparu?

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth sy'n ategu'r datganiad o'r seiliau dros eich cais. Gallai'r enghreifftiau gynnwys:

- rhif digwyddiad heddlu os oes ymosodiad blaenorol wedi bod;
- tystiolaeth ddogfennol o fygythiad neu ymosodiad; neu
- dystiolaeth o aflonyddu, trais, bygwth neu dargedu arall gan actifyddion hawliau anifeiliaid neu actifyddion eraill.

Bydd pa dystiolaeth y gallwch ei darparu yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Fe all fod ar ffurf dogfen ysgrifenedig neu ffotograffau os yw'r rheiny'n dangos y perygl yn glir.

5. Oes yna ffi am wneud y cais?

Oes, mae yna ffi o £55 am bob dogfen y bwriedir trefnu nad yw'r cyfeiriad i fod ar gael i'w archwilio ynddi. Dylai sieciau fod yn daladwy i 'Tŷ'r Cwmnïau'. Caiff eich ffurflen ei gwrthod os nad anfonwch y ffi gywir gyda hi.

6. Ble dylwn i anfon fy nghais?

Rhaid i'ch cais gael ei anfon at **Y Cofrestrydd Cwmnïau, Blwch Post 4082, Caerdydd CF14 3WE** ynghyd â'r ffi briodol a'r dystiolaeth ategol. Bydd hynny'n sicrhau y caiff ei brosesu gan y tîm priodol.

7. Beth sy'n digwydd ar ôl ichi gael fy nghais?

Byddwn yn gwirio'r manylion a rowch ac yn adolygu'r sail dros wneud y cais. Fe allen ni ofyn ichi roi tystiolaeth ychwanegol os byddwn yn teimlo nad ydych wedi rhoi digon o wybodaeth. I'n helpu i wneud penderfyniad byddwn yn gofyn am asesiad gan awdurdod priodol o natur a graddau'r perygl ichi o drais neu fygythiadau.

Rydyn ni'n ymdrin â gwybodaeth ar benderfyniad y cofrestrydd a sut y cewch wybod amdano ym Mhennod 8.

Pennod 8
Penderfyniad y cofrestrydd

1. Faint o amser y mae'n ei gymryd i'r cofrestrydd wneud penderfyniad?

Gallwn gyfeirio unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud ag asesu natur a graddfa'r trais neu'r bygythiadau yr ydych yn eu hwynebu at gorff perthnasol. Gall hyn gymryd hyd at bedair wythnos ac all y cofrestrydd ddim gwneud penderfyniad tan i'r wybodaeth hon gael ei rhoi.

Os ydych wedi cynnwys unrhyw ddogfennau i'w cofrestru gyda'ch cais "adran 243", byddwn yn cofrestru'r dogfennau gan gyfyngu dros dro ar ddatgelu'ch gwybodaeth warchodedig nes i benderfyniad gael ei wneud.

Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud byddwn yn rhoi gwybod ichi o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad hwnnw.

Caiff yr hysbysiad ei anfon:

- yn achos cais adran 243 gan unigolyn, i gyfeiriad preswyl arferol y person hwnnw;
- yn achos cais adran 1088 gan unigolyn, i'r cyfeiriad gohebu a roddwyd yn y cais;
- yn achos cais adran 243 gan gwmni, PAC neu gwmni tramor, i'r swyddfa gofrestredig a chyfeiriad preswyl arferol pob swyddog a restrwyd yn y cais;
- yn achos cais adran 1088 gan gwmni, i'r swyddfa gofrestredig;

- yn achos cais adran 243 gan danysgrifiwr i'r memorandwm cymdeithasiad neu gan aelod arfaethedig o PAC, at y person a wnaeth y cais ac i gyfeiriad preswyl arferol pob swyddog arfaethedig a restrwyd yn y cais; ac

- yn achos cais adran 1088 gan berson sy'n cofrestru arwystl, i'r cyfeiriad gohebu a roddwyd yn y cais.

2. Beth yw effaith cais "adran 243" neu gais "diogelwch uwch" llwyddiannus?

Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud o'ch plaid, byddwch yn cael eich adnabod fel "buddiolwr adran 243" neu yn achos cwmni tramor fel swyddog sydd â "diogelwch uwch".

Mae hyn yn golygu bod rhaid i unrhyw ffurflen a gyflwynwch i Dŷ'r Cwmnïau ddangos eich bod yn "fuddiolwr adran 243" neu'n swyddog sydd â "diogelwch uwch", yn achos cwmnïau tramor. Ar ffurflenni papur mae angen ichi roi tic yn y blwch ar y tudalen lle byddwch yn rhoi gwybodaeth am eich cyfeiriad preswyl arferol. Yna rhaid anfon y ffurflenni hyn at **Y Cofrestrydd Cwmnïau, Blwch Post 4082, Caerdydd CF14 3WE** er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu prosesu gan y tîm priodol.

Yn achos cwmnïau sy'n ffeilio'n electronig, bydd marciwr tebyg ar y sgrin y mae'n rhaid ichi ei lenwi er mwyn sicrhau y caiff y ffurflen ei throsglwyddo i'r adran briodol. Dydy'r cyfleuster hwn ddim ar gael i PACau a chwmnïau tramor am nad ydyn nhw'n gallu ffeilio'n electronig.

Os byddwch yn methu marcio'r dogfennau y byddwch yn eu ffeilio, efallai na fyddwn yn ymwybodol eich bod yn "fuddiolwr adran 243" neu'n swyddog sydd â "diogelwch uwch" a byddwch yn mentro gweld yr wybodaeth warchodedig yn cael ei datgelu i asiantaethau cyfeirio credyd.

Dylech roi gwybod am y gofyniad hwn hefyd i unrhyw un sy'n ffeilio ar eich rhan er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i gael eich diogelu.

3. Beth yw effaith cais "adran 1088" llwyddiannus?

Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud o'ch plaid, bydd Tŷ'r Cwmnïau:

- yn trefnu nad yw'r cyfeiriad a bennwyd yn y cais ar gael i'r cyhoedd ei archwilio yn y dogfennau a restrwyd yn y cais; ac

- os yw'r cais adran 1088 wedi'i wneud gan gwmni, yn trefnu nad yw holl gyfeiriadau'r aelodau neu'r cyn aelodau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn y dogfennau a restrwyd yn y cais.

4. Beth os bydd fy nghais yn aflwyddiannus?

Os na fydd eich cais yn llwyddo, cewch apelio i'r Uchel Lys - neu yn yr Alban i'r Llys Sesiwn - ar y sail bod y penderfyniad yn anghyfreithlon, yn afresymegol neu'n afresymol, neu ei fod wedi'i wneud ar sail amhriodoldeb neu ei fod fel arall yn torri rheolau cyfiawnder naturiol. Dim ond os cawsoch ganiatâd y llys y cewch apelio.

Dylai apêl gael ei gwneud o fewn 21 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad, neu yn ddiweddarach gyda chaniatâd y llys. Pan ofynnir am ganiatâd o fewn yr 21 diwrnod, byddai angen bodloni'r llys bod rheswm da pam na ellir apelio o fewn y cyfnod hwnnw. Pan ofynnir am ganiatâd y tu allan i'r 21 diwrnod, byddai angen bodloni'r llys bod rheswm da dros fethu gwneud yr apêl mewn pryd a thros oedi wrth wneud cais am ganiatâd.

Gall y llys wrthod yr apêl neu ddiddymu'r penderfyniad. Os bydd y llys yn diddymu'r penderfyniad mae'r mater yn cael ei gyfeirio'n ôl at y cofrestrydd.

5. Pa mor hir y mae'r penderfyniad yn para?

Mae'r penderfyniad "adran 243" yn ddi-ben-draw oni bai naill ai:

- bod y "buddiolwr adran 243" neu ei gynrychiolydd personol yn hysbysu'r cofrestrydd yn ysgrifenedig ei fod am i'r penderfyniad ddod i ben; neu

- fod y cofrestrydd wedi gwneud penderfyniad i'w ddiddymu.

Mae'r penderfyniad "adran 1088" yn parhau tan i'r cofrestrydd wneud penderfyniad i'w ddiddymu.

6. Beth sy'n digwydd pan gaiff y penderfyniad ei ddiddymu?

Gall y cofrestrydd ddiddymu penderfyniad ar unrhyw adeg os yw wedi'i fodloni bod y buddiolwr, neu unrhyw berson arall, wedi'i gael yn euog o dramgwydd cyffredinol o ddatganiad ffug o dan adran 1112 o Ddeddf Cwmnïau 2006, a'r ddeddfwriaeth berthynol.

Cyn diddymu penderfyniad bydd y cofrestrydd yn anfon hysbysiad at y buddiolwr i ddweud ei fod yn bwriadu diddymu'r penderfyniad. Bydd yr hysbysiad yn eich gwahodd i gyflwyno sylwadau i ddweud pam na ddylai'r penderfyniad gael ei ddiddymu. Cewch 28 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad i ymateb. Os na fyddwch yn ymateb yna caiff penderfyniad ei wneud ar ddiwedd y cyfnod hwnnw a chaiff y cyfeiriad preswyl arferol ei osod ar y ffeil gyhoeddus.

Os byddwch yn cyflwyno sylwadau yna fe gân nhw eu cymryd i ystyriaeth wrth bwyso a mesur a ddylai'r penderfyniad gael ei ddiddymu neu beidio. Bydd y cofrestrydd yn rhoi hysbysiad ynghylch ei benderfyniad i'r buddiolwr o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad.

Pennod 9
Ansawdd dogfennau

1. Beth fydd yn digwydd i ddogfennau y byddaf yn eu hanfon i Dy'r Cwmnïau?

Byddwn yn sganio'r dogfennau a'r ffurflenni y byddwch yn eu cyflwyno i ni er mwyn creu delwedd electronig. Yna, byddwn yn storio'r dogfennau papur gwreiddiol, gan ddefnyddio'r ddelwedd electronig fel y ddogfen waith.

Pan fydd cwsmer yn chwilio cofnod y cwmni, atgynhyrchir y ddelwedd electronig ar-

lein. Felly, mae'n bwysig bod y ddogfen wreiddiol yn ddarllenadwy, a'i bod yn gallu creu copi clir hefyd.

Pan fyddwch yn ffeilio dogfen yn electronig, byddwn yn creu delwedd electronig o'r data a ddarparwyd gennych yn awtomatig.

Mae'r bennod hon yn cynnig rhai canllawiau i'w dilyn wrth baratoi dogfen i'w ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau.

2. Sut ddylai dogfennau gael eu gosod?

Dogfennau sy'n cael eu ffeilio yn electronig

Rhaid i ddogfennau sy'n cael eu ffeilio yn electronig gydymffurfio gyda'r manylebion a bennwyd gan y cofrestrydd yn ei reolau ynghylch ffeilio electronig. Cynhwysir y diwyg ar gyfer trefn Software Filing yn y rheolau a gyhoeddir ar y wefan, ac mae'n gwefan yn cynnwys pob diwyg y bydd ei angen arnoch er mwyn ffeilio trwy gyfrwng y dull hwnnw. Dydy'r cyfleuster hwn ddim ar gael ar hyn o bryd i PACau a chwmnïau tramor.

Dogfennau papur

Yn gyffredinol, rhaid i bob dogfen bapur a anfonir i Dŷ'r Cwmnïau nodi enw a rhif cofrestru y cwmni, y PAC neu'r cwmni tramor mewn man amlwg. Ceir rhai eithriadau i'r rheol hon, a nodir yn rheolau cyhoeddedig y cofrestrydd.

Dylai dogfennau papur fod ar bapur gwyn plaen A4, â gorffeniad di-sglein. Dylai'r testun fod yn ddu, yn eglur, yn ddarllenadwy a dylai'r dwysedd fod yn unffurf. Rhaid i lythrennau a rhifau fod yn eglur ac yn ddarllenadwy er mwyn sicrhau bod modd i ni baratoi copi derbyniol o'r ddogfen. Gallai'r canllawiau canlynol fod o gymorth:

Pan fyddwch yn llenwi ffurflen, a fyddech cystal â:

- defnyddio inc du neu deip du;
- defnyddio llythrennau trwm (bydd rhai pennau ysgrifennu ac wynebau teip tenau a chain yn creu copïau o ansawdd gwael);
- ni ddylech anfon copi carbon;
- ni ddylech ddefnyddio matrics-argraffydd; a
- chofiwch – gall llungopïau roi arlliw llwyd na fydd yn sganio'n dda.

Pan fyddwch yn cwblhau dogfennau eraill, cofiwch:

- y pwyntiau a wnaethpwyd eisoes am lenwi ffurflenni;
- y dylech ddefnyddio papur A4 gydag ymyl hael;

- eu darparu ar ffurf diwyg portread (hynny yw, yr ymyl byrraf ar draws y brig); a

- chynnwys rhif ac enw'r cwmni/PAC/cwmni tramor.

3. Ble mae modd i mi gael gwybod mwy am hyn?

Am arweiniad pellach am ein gofynion argraffu, gweler ein gwefan neu ffoniwch 0303 1234 500.

Pennod 10
Gwybodaeth Bellach

1. Sut ddylwn i gyflwyno gwybodaeth i Dŷ'r Cwmnïau?

Am fanylion llawn am yr holl ffyrdd o gyflwyno dogfennau i Dŷ'r Cwmnïau, yn electronig neu ar bapur, a fyddech cystal â throi at reolau'r cofrestrydd sy'n ymddangos ar ein gwefan. Y ffordd fwyaf diogel o gyflwyno gwybodaeth statudol i Dŷ'r Cwmnïau yw trwy ddefnyddio ein gwasanaethau ffeilio ar-lein. Dydy'r cyfleuster hwn ddim ar gael ar hyn o bryd i PACau a chwmnïau tramor.

Os ydych yn anfon dogfennau yn y post, gyda negesydd, gyda'r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX) neu Bost Cyfreithiol (yn yr Alban), ac os hoffech gael derbynneb, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn darparu nodyn cydnabod os byddwch yn cynnwys copi o'ch llythyr esboniadol gydag amlen â chyfeiriad a stamp arni er mwyn ei ddychwelyd. Byddwn yn nodi cod bar ar eich copi chi o'ch llythyr, gan nodi'r dyddiad y'i cyflwynwyd, a'i ddychwelyd atoch yn yr amlen a ddarparwyd.

Sylwer: nid yw nodyn sy'n cydnabod bod dogfen wedi cyrraedd, yn golygu bod dogfen wedi cael ei derbyn i'w chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Sylwer: nid yw Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn unrhyw ddogfennau statudol trwy gyfrwng neges ffacs, PDF neu e-bost.

2. A fydd yn rhaid i mi dalu er mwyn ffeilio dogfennau yn Nhŷ'r Cwmnïau?

Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi am nifer o'r dogfennau y bydd yn rhaid i chi eu hanfon i Dŷ'r Cwmnïau, **ond bydd angen talu ffi ar gyfer rhai ac ni fyddwn yn eu derbyn er mwyn eu cofrestru heb y ffi hon.** Am fanylion llawn, dylech droi at ein gwefan.

3. A oes modd i mi ffeilio dogfennau mewn ieithoedd eraill?

Fel arfer, mae'r gyfraith yn mynnu eich bod yn ffeilio dogfennau a anfonir i Dŷ'r Cwmnïau yn Saesneg. Ceir eithriadau i'r rheol hon, fel y nodir isod. Gallwch baratoi a chyflwyno dogfennau yn Gymraeg os ydych yn gwmni neu'n PAC sydd â'u swyddfa gofrestredig yng Nghymru.

Gall cwmnïau a PACau gyflwyno'r dogfennau canlynol mewn ieithoedd eraill os anfonir cyfieithiad Saesneg ardystiedig o'r ddogfen hefyd:

- Yn achos cwmni/PAC a gynhwyswyd yng nghyfrifon grwpiau mwy o'r AEE neu o'r tu allan i'r AEE, cyfrifon y grŵp ac adroddiad y rhiant-ymgymeriad;

- Offerynnau arwystlon (neu gopïau o offerynnau arwystlon); a

- Gorchmynion Llys.

Yn ogystal, gall cwmnïau a PACau ffeilio cyfieithiadau ardystiedig gwirfoddol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn ein canllawiau eraill.

4. Ble mae modd i mi gael ffurflenni a chanllawiau?

Mae hwn yn un mewn cyfres o gyhoeddiadau gan Dŷ'r Cwmnïau sy'n cynnig canllaw syml i'r Ddeddf Cwmnïau a deddfwriaeth berthynol arall.

Mae modd cael pob canllaw a ffurflen statudol, yn rhad ac am ddim, gan Dŷ'r Cwmnïau. Y ffordd gyflymaf o'u cael yw trwy droi at ein gwefan neu ffonio 0303 1234 500.

Yn ogystal, gallwch gael ffurflenni gan ddogfenwyr cyfreithiol, cyfrifwyr, cyfreithwyr ac asiantiaid ffurfio cwmnïau.

sut i gyswllt â ni

Fersiwn 2.3 (05/12)

canolfan cyswllt a gwybodaeth: 0303 1234 500
(er dibenion hyfforddi a sicrhau ansawdd, fe allay eich galwad gael ei monitro)

mini-com: 029 2038 1245
enquiries@companieshouse.gov.uk
www.tyrcwmniau.gov.uk

Caerdydd
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

Caeredin:
Companies House
4th Floor, Edinburgh Quay 2
139 Fountainbridge
Edinburgh EH3 9FF

Llundain:
Companies House
4 Abbey Orchard Street
Westminster
London SW1P 2HT

Belfast:
Companies House
1st Floor, Waterfront Plaza
8 Laganbank Road
Belfast BT1 3BS

Am y fersiwn y mwyaf diweddaraf o'r llyfryn hwn, gweler ein gwefan:

www.tyrcwmniau.gov.uk